**Beirniadaeth Cystadleuaeth 351**

**Rhyddiaith Bl.2 ac iau: Y Parti**

**Beirniad: Bethan Haf**

Daeth dros 40 o straeon i law ar y testun 'Y Parti', a phleser mawr oedd darllen pob un ohonynt. Roeddwn yn teimlo'n llwglyd iawn ar ôl darllen eich straeon am yr holl fwydydd parti blasus, yn arbennig y teisennau pen-blwydd bendigedig. Daliwch ati i ysgrifennu a defnyddio'ch dychymyg – mae dyfodol llenyddiaeth Cymru yn ddiogel!

Roedd rhai straeon yn disgrifio partïon pen-blwydd, gan sôn am y ffrindiau, y bwyd, yr anrhegion a'r gemau. Ond aeth llawer o straeon â ni i fyd dychmygol a chefais fwynhad pur yn eu darllen.

Bu'n anodd dewis tair stori i'w rhoi ar y brig, ond dyna oedd rhaid ei wneud! Felly, yn nhrefn yr wyddor:

<u>Clatsch y Cwn:</u>

Dywed mam Clatsch y Cwn wrthi hi ac Anwen i beidio â chyffwrdd y bwyd nes i bawb gyrraedd y parti. Ond mae'r ddwy yn bwyta darn bach o gacen ac yna'n mynd yn fach gan "neidio ar y jeli mawr coch fel trampolîn" ac ymlacio yn swigod y pop lemwn oedd "fel jacuzzi anhygoel". Ar ôl bwyta tamaid o sgon mam-gu, maent yn tyfu'n ôl ac yn cael parti gyda'r teulu.

<u>Olwyn:</u>

Ar ôl y bwyd parti aiff Olwyn a'i ffrindiau i chwarae â'i thŷ doliau newydd, ond wrth agor "y drysau pren, fflachiodd golau llachar... *WWYSH*" ac maent yn mynd i "wlad fach hudol i gwrdd â thywysogesau" a thylwyth teg. Dônt yn ôl adref yn ddiogel ar ôl y "parti pen-blwydd mwyaf cyffrous erioed!"

<u>Seren Aur:</u>

Stori am ben-blwydd Mr Urdd yn bum deg oed sydd gan Seren Aur, a Mr Urdd druan yn meddwl bod pawb wedi anghofio am ei ben -blwydd arbennig. Ond caiff barti syrpréis, gyda Aleighcia, Dom a Lloyd yno hyd yn oed yn canu cân newydd Mr Urdd. Roedd y stori hon yn amserol iawn ac yn llawn dychymyg.

Felly, Seren Aur sy'n cael y wobr gyntaf, Olwyn yn ail a Clatsch y Cwn yn drydydd. Llongyfarchiadau.

1af Seren Aur 2il Olwyn 3ydd Clatsch y Cwn